# Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr

# Asesiad Perfformiad Panel (APP)

# Adroddiad

# Medi 2025



Cyngor Bwrdeistref Sirol
Pen-y-bont ar Ogwr
BRIDGEND
County Borough Council

## 1. Cyflwyniad a Chefndir

1.1 Yn unol â'r dyletswyddau perfformiad dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, comisiynodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr Asesiad Perfformiad Panel (APP) drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC).

1.2 Cynhaliwyd yr asesiad ar y safle dros bedwar diwrnod, a daeth i ben ar 19 Medi 2025 drwy gyflwyno adborth i'r Cyngor yn egluro'r prif ganfyddiadau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn.

1.3 Cynhaliwyd yr asesiad yn seiliedig ar y ddogfen gwmpasu y bu i'r Cyngor gytuno arni a methodoleg APP CLlLC, a ddatblygwyd gyda'r sector. Mae methodoleg yr APP yn cynnig fframwaith cyffredinol: nid yw'r trywydd ymholi wedi'i bennu'n bendant, ond mae'n rhoi arweiniad i'r Panel ar y meysydd y gellid eu harchwilio i fodloni'r ddyletswydd statudol. Fodd bynnag, dylai'r graddau y mae'r Panel yn archwilio'r meysydd hynny fod yn gymesur â chwmpas y Cyngor ond yn ddigonol i alluogi'r Panel i ddod i gasgliad.

1.4 Yn unol â'r canllawiau statudol, nid archwiliad nac arolygiad mo'r APP ac nid yw'n ceisio dyblygu'r gwaith a wneir gan reoleiddwyr a chyrff eraill. Er bod y Panel wedi cynnal asesiad corfforaethol, nid oedd yr asesiad hwn yn un trylwyr a dylid ei ystyried ochr yn ochr â ffynonellau sicrwydd eraill fel hunanasesiad y Cyngor ei hun, adolygiadau archwilio mewnol, archwiliadau allanol ac adolygiadau rheoleiddio.

1.5 Wrth baratoi at yr APP, bu i'r Cyngor fesur cwmpas eu gofynion er mwyn sicrhau bod yr asesiad yn cynnig y gwerth ac yn cael yr effaith fwyaf bosib i'r Cyngor. Mae'r meysydd penodol roedd y Cyngor eisiau canolbwyntio arnynt i'w gweld ym mharagraff 3.2.

1.6 Mae'r adroddiad hwn yn cynnig trosolwg cryno o gasgliadau'r Panel a adroddir yn ôl eithriadau.

## 2. Tîm Cymheiriaid

2.1 Comisiynwyd y Cymheiriaid canlynol gan CLlLC i gynnal yr asesiad. Cytunwyd ar y detholiad o Gymheiriaid yn ôl disgresiwn y Cyngor, ar sail addasrwydd eu sgiliau a'u profiad:

- Cadeirydd Annibynnol: Sally Loudon - Cyn Brif Weithredwr Confensiwn Awdurdodau Lleol yr Alban (COSLA), cyn Brif Weithredwr Cyngor Argyll a Bute.
- Cymar sy'n Uwch Aelod: Y Cynghorydd Andrew Stevens - Cynghorydd presennol ac Aelod Cabinet yr Amgylchedd a Seilwaith Cyngor Abertawe.
- Cymar sy'n Uwch Swyddog: Gareth Newell - Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau, Cyngor Caerdydd.
- Cymar o'r Sector Cyhoeddus, Preifat neu Wirfoddol Ehangach: Anne-Louise Clark, cyn Gyfarwyddwr Gweithredol – Cyfathrebu a Newid ar gyfer Archwilio Cymru, a Chadeirydd Bwrdd Ymddiriedolwyr *Platfform for Change Ltd*.

2.2 Cefnogwyd y Panel gan Cerith Thomas, Uwch Swyddog Polisi (Gwella - Gwasanaethau Democrataidd) a Lyndon Puddy (Rheolwr Asesiad Perfformiad Panel), ill dau o Dîm Gwella CLILC.

**3. Cwmpas a Dull**

3.1 Mae gofyn i'r Panel asesu i ba raddau y mae'r Cyngor:

- yn arfer ei swyddogaethau'n effeithiol;
- yn defnyddio ei adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol; ac
- yn gweithredu trefniadau llywodraethu effeithiol i sicrhau'r uchod.

3.2 Nododd y Cyngor y tri maes canlynol y byddai barn cymheiriaid yn eu cylch yn werthfawr fel rhan o asesiad y Panel: **Trawsnewid, Mynd i'r Afael â Heriau'r Gweithlu a Gwella Ymgysylltiad.** Croesawodd y Cyngor gefnogaeth y Panel wrth gynnig lefel uchel o ddealltwriaeth o'r meysydd blaenoriaeth hyn sy'n cwmpasu'r Cyngor cyfan ac yn cynnwys pob Cyfarwyddiaeth.

- **Trawsnewid** – Datblygu dull y Cyngor o drawsnewid sy'n bodloni dyheadau gwleidyddol a rhai'r budd-ddeiliad allweddol, gan gynnwys pa mor effeithiol yw'r trefniadau ar gyfer darparu, rheoli perfformiad a'r diwylliant sy'n sail i drawsnewid. Roedd y Cyngor wedi nodi angen clir i ganolbwyntio ar ddulliau ac adnoddau trawsnewid a fyddai'n gwella profiad y dinasyddion ac yn creu sefydliad sy'n gynaliadwy yn y tymor canolig a'r hirdymor.
- **Mynd i'r Afael â Heriau'r Gweithlu** – Gan ddatblygu ar gynllunio gweithlu mwy cadarn, ystyried dull y Cyngor o fynd i'r afael â heriau recriwtio mewn meysydd allweddol a gwella'r broses o gynllunio dilyniant, er mwyn helpu creu strategaeth hirdymor ar gyfer y gweithlu.
- **Gwella Ymgysylltiad** – Gan ddatblygu ar welliannau i gyfathrebu strategol, canfod beth arall y gall y Cyngor ei wneud i wella ymgysylltiad a pherthnasoedd yn fewnol gyda Chynghorwyr ac yn allanol gyda chymunedau lleol a Chynghorau Tref a Chymuned, er mwyn ei helpu i ganolbwyntio'n well ar y dinasyddion.

3.3 Er mwyn paratoi ar gyfer yr asesiad ar y safle, cynhaliodd y Panel adolygiad o ddogfennau, data, adroddiadau allanol a gwybodaeth berthnasol arall y Cyngor yn gyntaf. Bu i'r Cymheiriaid hefyd gymryd rhan mewn cyfarfodydd ar-lein rhagarweiniol.

3.4 Treuliodd y Panel dros 240 o oriau yn cynnal yr adolygiad ar y safle, a hynny'n cynnwys cyfres o gyfarfodydd unigol a grwpiau ffocws gyda'r budd-ddeiliaid canlynol:

- Arweinydd y Cyngor
- Y Prif Weithredwr
- Y Cabinet – Grŵp Ffocws

- Yr Aelod Cabinet Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Arweinydd
- Yr Aelodau Cabinet Adnoddau (Rhannu Swydd)
- Yr Aelod Cabinet Cyllid ac Adnoddau
- Grŵp Ffocws, Aelodau Etholedig - anweithredol
- Arweinwyr y Gwrthbleidiau (Annibynwyr Sir Pen-y-bont ar Ogwr a'r Gynghrair Ddemocrataidd)
- Grŵp Ffocws - Cadeiryddion Craffu
- Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
- Cadeirydd Annibynnol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
- Cadeirydd Annibynnol y Pwyllgor Safonau
- Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol
- Prif Swyddog Cyllid, Tai a Newid (Swyddog Adran 151)
- Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles
- Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau
- Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg, y Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc
- Pennaeth Gweithrediadau Dros Dro – Gwasanaethau Cymunedol (wedi cael secondiad diweddar o fod yn Bennaeth Partneriaethau a Thai)
- Rheolwr Grŵp - Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol
- Rheolwr Grŵp Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus, Marchnata, Ymgynghori ac Ymgysylltu
- Dirprwy Bennaeth Cyllid a Dirprwy Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol
- Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus a'r Rheolwr Perfformiad Corfforaethol
- Rheolwr Grŵp yr Economi, Adnoddau Naturiol a Chynaliadwyedd
- Rheolwr Grŵp Cynllunio a Datblygu (Pennaeth Cynllunio)
- Grŵp Ffocws Staff - Penaethiaid Gwasanaeth a Dirprwy Benaethiaid Gwasanaeth
- Grŵp Ffocws Staff (Rheolwyr Grwpiau)
- Grŵp Ffocws Staff (Staff Rheng Flaen)
- Penaethiaid - Grŵp Ffocws
- Cynrychiolwyr Cyngor yr Ifanc - Grŵp Ffocws
- Arweinydd a Phrif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Arweinydd a Phrif Weithredwr Cyngor Bro Morgannwg
- Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Heddlu De Cymru – Prif Uwch-arolygydd
- Cynghorau Tref a Chymuned – Grŵp Ffocws
- Undebau Llafur – Grŵp Ffocws
- Y Gymuned Fusnes – Grŵp Ffocws
- Grŵp Ffocws Panel Dinasyddion
- Grŵp Ffocws Budd-ddeiliaid - Pobl Hŷn
- Prif Weithredwr Halo Leisure – Menter Gymdeithasol sy'n canolbwyntio ar y gymuned.

## 4. Casgliad Cyffredinol

4.1 Mae Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr yn Gyngor da gyda photensial heb ei gyffwrdd. Mae'r arweinyddiaeth wleidyddol a rheolaethol yn uchelgeisiol ar gyfer y Sir gyfan ac mae ganddo gefnogaeth lawn y gweithlu ymroddedig a brwdfrydig. Mae'r staff wedi ymrwymo i'r Cyngor a'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu, ac yn dangos lefel uchel o hunanymwybyddiaeth a chyd-ddealltwriaeth o gryfderau'r Cyngor a'r heriau sydd o'i flaen.

4.2 Mae'r Cyngor eisoes wedi dangos ei allu drwy lwyddo i drawsnewid meysydd allweddol, yn enwedig y Gwasanaethau Plant, ac mae mewn sefyllfa dda i ddatblygu ar y llwyddiant hwn er lles y Cyngor ehangach. Mae canfyddiadau'r asesiad yn dangos bod Pen-y-bont ar Ogwr yn barod ac yn awyddus i newid a bod ganddo agwedd gadarnhaol tuag at ei ddyfodol.

4.3 Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi cyrraedd "croesffordd" o ran ei ddatblygiad, ac mae hi bellach yn amser gweithredu'n gyflym. Drwy wneud y newidiadau angenrheidiol nawr, gall y Cyngor sicrhau y bydd yn gallu cynnal gwasanaethau a pharhau i ddarparu ar gyfer ei gymunedau am flynyddoedd i ddod.

## 5. Cyd-destun Lleol *(dogfen gwmpasu APP wreiddiol)*

5.1 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ymestyn dros tua 110 milltir sgwâr, o gymoedd Ogwr, Garw a Llynfi yn y gogledd i arfordir Môr Hafren yn y de. Y prif ganolfannau masnachol yw Pen-y-bont ar Ogwr, Maesteg a thref glan môr Porthcawl. Mae'r M4 yn rhannu'r fwrdeistref sirol ac mae yna gysylltiadau â'r brif reilffordd tua'r dwyrain i Lundain a thua'r gorllewin i Abertawe.

### Poblogaeth a Demograffeg Gymunedol

5.2 Roedd gan Ben-y-bont ar Ogwr boblogaeth o 145,760 yng nghyfrifiad 2021, a oedd yn gynnydd o 4.5% ers 2011. Rhagwelir y bydd y boblogaeth yn tyfu 7.5% dros yr 20 mlynedd nesaf. Yn y boblogaeth:

- Mae 50.6% yn fenywaidd a 49.4% yn wrywaidd.
- Mae 96.78% yn nodi eu bod yn wyn, 1.48% yn nodi eu bod yn Asiaidd, 1.16% yn nodi eu bod yn gymysg eu hil, 0.29% yn nodi eu bod yn ddu, a 0.29% yn nodi eu bod o grŵp ethnig arall.
- Mae gan 22.64% anableddau sy'n cyfyngu rhywfaint neu gryn dipyn ar eu gweithgareddau dydd i ddydd.

5.3 Yn debyg i weddill Cymru, mae gan y fwrdeistref boblogaeth sy'n heneiddio, gyda'r twf cyflymaf i'w weld yng nghategori oedran dros 65 oed, gyda chynnydd o 21.5% rhwng 2011 a 2021. Yn ystod yr un cyfnod, dim ond 2.6% o gynnydd a welwyd yn y grŵp dan 15 oed. Gall hyn arwain at heriau i wasanaethau'r Cyngor, gan gynnwys iechyd, gofal cymdeithasol a thai.

**Iechyd ac Amddifadedd**

5.4 Yn 2021, roedd 46.3% o'r trigolion yn disgrifio eu hiechyd yn "dda iawn", wedi codi o 45.1% yn 2011. Fodd bynnag, mae yna anghyfartaledd sylweddol o ran iechyd. Nodir bod yna 'Amddifadedd Hirsefydlog' mewn 7 ardal ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae'r rhain yn ardaloedd sydd wedi aros o fewn y 50 ardal â'r mwyaf o amddifadedd yng Nghymru dros bum cyhoeddiad diwethaf rhestr Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, mae iechyd cyffredinol 70% o'r bobl sy'n 16+ oed yn "dda neu dda iawn", sef y cyfartaledd cenedlaethol. Mae cyfraddau gweithgarwch corfforol a bwyta'n iach yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol ac mae Pen-y-bont ar Ogwr yn gartref i rai o'r mannau â'r mwyaf o amddifadedd materol yng Nghymru. Mae cyfradd gordewdra Pen-y-bont ar Ogwr yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae pwysau iach ymysg pobl ifanc dan 25 oed hefyd ychydig yn is na chyfartaledd Cymru. Mae 18% o'r oedolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn ysmygu, sydd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (17%). Mae lles meddyliol ychydig yn well na chyfartaledd Cymru.

**Cyflogaeth a Sgiliau**

5.5 Mae yna tua 3,770 o fentrau ym Mhen-y-bont ar Ogwr, gyda nifer sylweddol o ficro-fentrau (gyda hyd at 9 aelod staff). Mae'r cyflogwyr allweddol yn cynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, sy'n cyflogi tua 6,000 o bobl, a chyflogwyr sector cyhoeddus a phreifat pwysig ym meysydd gweithgynhyrchu a pheirianneg dyfeisiau meddygol.

67.1% yw'r gyfradd cyflogaeth (rhwng 16 a 64 oed), ac mae cyflogaeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi gostwng o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd cyfradd cyflogaeth Pen-y-bont ar Ogwr yn is na chyfradd Cymru gyfan yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2023.

**Sgiliau a Budd-daliadau Diweithdra**

5.6 Ym mis Mai 2024, 3.5% oedd cyfradd diweithdra Pen-y-bont ar Ogwr, er bod nifer y bobl a oedd yn chwilio am waith wedi codi ers y flwyddyn cynt. Roedd y gyfradd diweithdra fwyaf diweddar ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr yn is nag un Cymru gyfan. Mae anweithgarwch economaidd wedi cynyddu ers y flwyddyn flaenorol; mae'r rhain yn bobl nad ydynt mewn gwaith nac yn chwilio am waith. Canran y bobl sy'n hawlio budd-daliadau sy'n gysylltiedig â diweithdra rhwng 16 a 64 oed yw 2.8%. Roedd y ganran hon y is ym mis Mawrth 2024 o'i gymharu â'r flwyddyn cynt.

**Isadeiledd a Chysylltiadau Cludiant**

5.7 Mae'r sir yn elwa ar isadeiledd cludiant rhagorol, gan gynnwys traffordd yr M4, sy'n cynnig llwybr cyflym i Gaerdydd ac Abertawe. Mae yna hefyd wasanaethau rheilffordd cyflym ac mae'n agos at Faes Awyr Caerdydd. Mae llwybrau teithio llesol yn cael eu datblygu i wella'r isadeiledd cerdded a beicio. Bu i'r Cyngor fabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol newydd yn ddiweddar, a fydd yn llywio datblygiad hyd at 2033.

**Tai a Fforddiadwyedd**

5.8 Pris cyfartalog tŷ ym Mhen-y-bont ar Ogwr yw tua £187,812. Mae 71% o aelwydydd Sir Pen-y-bont ar Ogwr yn berchen ar eu tŷ eu hunain naill ai'n gyfan gwbl neu drwy forgais. Mae 15% arall yn rhentu'n breifat, ac 14% yn rhentu'n gymdeithasol. Ym Mhorthcawl mae'r lefelau uchaf o berchenogaeth tŷ, ac yn Y Pîl/Cynffig mae'r lefelau isaf. Yng Nghwm Ogwr mae'r gyfran uchaf o denantiaid preifat (21%). Mae'r Cyngor yn rheoli cofrestr tai cyffredin er mwyn dyrannu tai cymdeithasol ac mae'n cynnig amrywiol wasanaethau cymorth i atal digartrefedd. Mae Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai 2022-26 y Cyngor yn nodi chwe blaenoriaeth newydd a'r amcanion cysylltiedig.
Mae'r gyfran o eiddo sy'n agored i dreth y cyngor sy'n ail gartrefi (0.1%) ymhell o dan gyfartaledd Cymru gyfan (1.8%).

**Heriau Hinsawdd Lleol**

5.9 Mae Pen-y-bont ar Ogwr wedi ymrwymo i gyrraedd allyriadau carbon sero net erbyn 2030. Mae gan y Cyngor strategaeth gynhwysfawr i fynd i'r afael â newid hinsawdd, gan gynnwys datgarboneiddio ei weithrediadau a hyrwyddo arferion cynaliadwy. Mae ei gyflawniadau hyd yma'n cynnwys goleuadau stryd LED, rhaglen ôl-osod ar gyfer arbed ynni, ehangu gwarchodfeydd natur lleol, plannu coed a strategaeth gaffael gynaliadwy.

**Y Cyngor**

5.10 **Arweinyddiaeth Wleidyddol**

Yn yr etholiadau lleol diwethaf ym mis Mai 2022, roedd yna gystadlu am 51 sedd, sef 3 yn llai nag yn 2017. Bydd etholiadau nesaf Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr yn cael eu cynnal ym mis Mai 2027.

5.11 Llafur sydd â'r mwyafrif yn y weinyddiaeth bresennol gyda 26 Cynghorydd, ac mae yna 23 Cynghorydd annibynnol (13 o Annibynwyr Sir Pen-y-bont ar Ogwr, 8 o'r Gynghrair Ddemocrataidd a 2 Annibynnol), 1 Cynghorydd Ceidwadol ac 1 Cynghorydd Reform.

5.12 Y Cynghorydd John Spanswick yw Arweinydd y Cyngor a'r Cynghorydd Jane Gebbie yw'r Dirprwy Arweinydd.

5.13 **Uwch Reolwyr**

Mae uwch reolwyr y Cyngor yn cynnwys y Prif Weithredwr, Jake Morgan, a gychwynnodd yn ei swydd ym mis Gorffennaf 2025. Caiff ei gefnogi gan dri Chyfarwyddwr Corfforaethol sy'n gyfrifol am ddarpariaeth gwasanaethau. Mae yna ddau Brif Swyddog yng Nghyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr, a Phennaeth Archwilio Mewnol.

## 6. Cryfderau a Meysydd Arloesi

6.1 Dangosodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fod uchelgais yn gyson gydnaws ar gyfer yr ardal. Nododd y Panel fod y Cabinet, Swyddogion, Aelodau'r meinciau cefn, Aelodau'r gwrthbleidiau a'r budd-ddeiliaid yn gadarnhaol ac yn

uchelgeisiol dros y Sir, ac yn hybu diwylliant cadarnhaol, croesawgar a chyfeillgar. Cefnogir hyn gan staff brwdfrydig, ymroddedig a gofalgar, sy'n hyderus am y dyfodol. Mae'r Cyngor yn dangos gwir awch am newid a oedd yn amlwg i aelodau'r panel cymheiriaid.

6.2 Un enghraifft dda o hyn yw'r llwyddiant i drawsnewid y Gwasanaethau Plant. Mae'r cyflawniad hwn yn amlygu arweinyddiaeth gadarn a gwytnwch arbennig yn wleidyddol ac ar ran y swyddogion, ac yn cynnig gwersi gwerthfawr y gellir eu rhannu ledled y sefydliad i sbarduno llwyddiant pellach.

6.3 Mae'r Cyngor hefyd yn dangos lefel uchel o hunanymwybyddiaeth, gyda chyd-ddealltwriaeth amlwg o'i gryfderau a'r meysydd y mae angen eu gwella. Atgyfnerthir hyn ymhellach gyda sefydliad **gweithgor cyllideb** newydd, sy'n dangos dull rhagweithiol a chydweithredol o reoli cyllid a chynllunio strategol sy'n cynnwys nifer sylweddol o Aelodau Etholedig o bob rhan o'r Weinyddiaeth a'r Gwrthbleidiau.

6.4 Dywedodd y Panel fod gan Gyngor Pen-y-bont ar Ogwr y gyfradd ailgylchu uchaf yng Nghymru, sef 73% yn 2023-24. Mae hyn yn uwch na tharged statudol Llywodraeth Cymru, sef bod angen i bob Cyngor gyrraedd cyfradd ailgylchu o 70% erbyn 2024/25. Mae Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr ac ambell i Gyngor arall eisoes wedi rhagori ar y targed hwn.

6.5 Nodir bod ysgolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn gryf mewn arolygiadau, gyda dim ond un ysgol angen camau dilynol gan Estyn ar hyn o bryd. Tynnwyd sylw at 18 enghraifft o arfer effeithiol gan Estyn o'r 15 arolygiad craidd ym mlwyddyn ysgol 2024-25.

## 7. Heriau Lleol a Chenedlaethol

7.1 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr, fel pob Cyngor yng Nghymru, yn wynebu heriau cynaliadwyedd ariannol sylweddol, gydag amcanestyniad Chwarter 1 yn dangos gorwariant o £898,000 ar gyfer 2025/26.

7.2 Tynnodd y Cyngor sylw at ofynion eithriadol ar draws rhai o'i wasanaethau allweddol, gan gynnwys cymorth i blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, gofal pobl hŷn, lleoliadau plant cymhleth a digartrefedd. Mae yna batrymau newidiol o angen mewn meysydd gwasanaeth eraill, er enghraifft ymddygiad a phresenoldeb mewn ysgolion. Mae rhai gwasanaethau wedi gweithio'n galed i fodloni disgwyliadau, ond ychydig iawn o adnoddau a gwytnwch sydd ganddynt yn dilyn blynyddoedd o doriadau i'r gyllideb.

7.3 **<u>Perfformiad Ariannol:</u>**

- Yn 2024/25, bu i Ben-y-bont ar Ogwr danwario £300,000 yn erbyn ei gyllideb o £361 miliwn, sef tua 0.1% o'r gyllideb. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa gyffredinol yn

cuddio pwysau sylweddol mewn rhai rhannau o'r gyllideb yn ogystal â chyfraniad sylweddol i'r cronfeydd wrth gefn.
- Bu i falansau'r ysgolion ostwng o £2.4 miliwn ar 31 Mawrth 2024 i falans negyddol o £619,000 ar 31 Mawrth 2025.
- Bu i'r Cyngor adrodd bod 88% o arbedion cyllideb 2024/25 wedi'u cyflawni'n gyfan gwbl.

7.4 **Cynllunio Ariannol Strategol:**

- Cyfanswm y bwlch yn y gyllideb dros y cyfnod pedair blynedd o 2025/26 ymlaen yw tua £39.5 miliwn o ystyried y sefyllfa fwyaf tebygol. Ar ôl yr arbedion a nodwyd (25/26), mae yna fwlch o £27.265 miliwn o hyd.
- Mae'r Cyngor yn nodi y bydd gwaith yn cael ei wneud i nodi'r mesurau lliniaru sydd eu hangen er mwyn cau'r bwlch a chaniatáu ar gyfer unrhyw fuddsoddiad sydd ei angen yn ychwanegol at y pwysau anochel a nodwyd eisoes.

7.5 **Pennu'r Gyllideb:**

- Mae cyllideb 2025/26 yn cynnwys cynnydd o 4.5% yn Nhreth y Cyngor.
- Roedd Setliad Ariannol Llywodraeth Leol 2025/26 yn well na rhagdybiaethau cychwynnol y Cyngor.
- Roedd y gyllideb yn galw am £8.379 miliwn o arbedion. Byddai hyn wedi bod yn uwch heblaw am y setliad gwell na'r disgwyl gan Lywodraeth Cymru.

7.6 **Materion Eraill:**

- Bu i adolygiad Asesiad Cynaliadwyedd Ariannol Archwilio Cymru o Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ym mis Awst 2024 ganfod bod *'y Cyngor yn deall ei sefyllfa ariannol gyda threfniadau da i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol y mae'n eu haddasu, ond ei fod ar gam cynnar datblygu ei ddull gweithredu hirdymor'.*
- Nid oes gan y Cyngor ei stoc dai ei hun, felly nid oes ganddo Gyfrif Refeniw Tai.
- Mae gan Ben-y-bont ar Ogwr raglen gyfalaf dreigl ddeng mlynedd sydd wedi'i phennu ar gyfer 2025/26, ac sydd ar sail ddangosol am y naw mlynedd wedyn. Cafodd ei phroffilio yn unol â chyngor technegol am brosesau rheoleiddio, amserlenni a chynlluniau gwaith.

7.7 **Perfformiad yn Erbyn Cyllideb 2024/25**

7.7.1 Y gyllideb refeniw net ar gyfer 2024-25 oedd £360.671 miliwn. Y sefyllfa derfynol gyffredinol ar 31 Mawrth 2025 oedd tanwariant net o £300,000, a drosglwyddwyd i Gronfa Gyffredinol y Cyngor.

7.7.2 Mae hyn yn rhoi ystyriaeth i sefydlu £13.063 miliwn net o gronfeydd wrth gefn newydd a glustnodwyd yn 2024-25 er mwyn gallu buddsoddi mewn gwasanaethau, lliniaru risgiau'r dyfodol ac ar gyfer ymrwymiadau gwariant. Gwelwyd gorwariant net o £2.376 miliwn yng nghyfanswm cyllidebau'r Gyfarwyddiaeth, a thanwariant net o

£15.128 miliwn yng nghyllidebau'r Cyngor cyfan. Mae'r sefyllfa derfynol yn cynnwys incwm ychwanegol o £611,000 o Dreth y Cyngor a gasglwyd dros y gyllideb yn ystod y flwyddyn ariannol.

7.7.3 Mae'r Cyngor yn nodi bod *'y tanwariant cyffredinol ar gyllideb y Cyngor yn cuddio'n sylweddol y pwysau cyllidebol sylfaenol yn y gwasanaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol, Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol, a gofal cymdeithasol Plant'.*

7.7.4 Dyma'r prif resymau dros y tanwariant cyffredinol yn 2024-25: -

- Grant annisgwyl o £3.290 miliwn gan Lywodraeth Cymru tuag at ddyfarniad cyflog athrawon ar gyfer 2024-25 a phwysau cyflogau'r NJC.
- Arbediad o £2.044 miliwn gan fod y Cyngor wedi cytuno ar newid i'r Polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw ar 23 Hydref 2024.
- Grant annisgwyl o £2.024 miliwn gan Lywodraeth Cymru tuag at bwysau costau refeniw.
- Peidio â bod angen defnyddio'r £1.558 miliwn a oedd wedi'i gynnwys yn Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2024-28 tuag at bwysau cyllidebol sy'n dod i'r amlwg ac fel arian at raid yn erbyn methu â chyflawni cynigion i gwtogi'r gyllideb.

7.7.5 Roedd y gyllideb a gymeradwywyd ar gyfer 2024-25 yn cynnwys arbedion cyllidebol o £13.045 miliwn. Ar 31 Mawrth 2025, roedd diffyg ar y targed arbedion o £1.569 miliwn, neu 12.03% o'r targed cwtogi cyffredinol.

7.7.6 Yn ystod 2024-25, bu i Gyfarwyddiaethau dynnu cyllid i lawr o gronfeydd wrth gefn penodol a glustnodwyd. Y swm terfynol a dynnwyd i lawr o'r cronfeydd refeniw oedd £5.397 miliwn.

## 8. Trosolwg o'r Canfyddiadau

**Meysydd lleol y nododd y Cyngor y byddai barn cymheiriaid yn eu cylch yn werthfawr fel rhan o'r asesiad Panel**

### 8.1 Trawsnewid

8.1.1 Mae'n amlwg bod yna uchelgais gydnaws am newid, ac awch a chyffro cryf i drawsnewid ar draws y sefydliad. Mae'r gred hon a rennir mai dyma'r peth iawn i'w wneud ar yr adeg iawn, ynghyd â thystiolaeth o arloesi mewn rhai meysydd, yn cynnig sylfaen pwerus. Er mwyn manteisio'n llawn ar y momentwm hwn, mae angen rhoi sylw i'r meysydd canlynol:

8.1.2 **Datblygu Cynllun Trawsnewid newydd**: Dylai'r Cyngor greu cynllun trawsnewid clir a chynhwysfawr. Rhaid i'r broses hon fod yn hynod gydweithredol, gan fynd ati i gynnwys staff, Aelodau, partneriaid a chymunedau i sicrhau bod pawb yn ymrwymo ac yn rhannu'r weledigaeth.

8.1.3 **Cryfhau Adnoddau Strategol**: Mae cyflawni newid ar y lefel hon yn galw am fwy o adnoddau strategol a chorfforaethol o fewn y sefydliad. Dylai'r Cyngor fynd i'r afael ag unrhyw fylchau i sicrhau ei fod yn gallu rheoli a gweithredu rhaglen drawsnewid ar raddfa fawr, cynnal neu wella ei berfformiad, a mesur ei effaith.

8.1.4 **Trawsnewid ar sail Data a Dealltwriaeth:** Er mwyn bod yn gwbl effeithiol, rhaid i ymdrechion y Cyngor i drawsnewid fod wedi'u seilio ar ddata a dealltwriaeth gadarn. Bydd hyn yn sicrhau bod y penderfyniadau a wneir wedi'u seilio ar dystiolaeth a bod ei ymdrechion yn canolbwyntio ar y maes a fydd yn cael yr effaith fwyaf.

8.1.5 **Adolygu Agweddau at Gymwyseddau Digidol a Data:** Un o gydrannau hanfodol y cynllun trawsnewid newydd yw agwedd y Cyngor at gymwyseddau digidol a data. Dylai adolygu ei brosesau cyllido, ei systemau, ei sgiliau a'i ddiwylliant presennol i sicrhau y gall y swyddogaeth ddigidol alluogi'r newidiadau y mae'n ceisio eu cyflawni.

## 8.2 Mynd i'r Afael â Heriau'r Gweithlu

8.2.1 Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ddiwylliant sefydliadol cadarn a chadarnhaol; mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn gweld y diwylliant yn un gofalgar. Atgyfnerthir hyn ymhellach gan y berthynas waith gadarn â'r Undebau Llafur. Mae'r swyddogion hefyd yn falch o'r effaith y mae'r Cyngor yn ei chael ar gymunedau ledled y Sir.

8.2.2 Er bod gan y Cyngor sylfaen cadarn, mae yna gyfleoedd iddo fod yn fwy strategol a blaengar. Mae angen i'r cynllun gweithlu presennol ddatblygu i gydweddu'n well â gweledigaeth a chynllun trawsnewid newydd y sefydliad. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael â meysydd allweddol fel cynllunio dilyniant, datblygu'r gweithlu ar gyfer y dyfodol i fodloni gofynion newidiol, a gwreiddio cymwyseddau digidol a data yn strategaeth y gweithlu.

8.2.3 Er mwyn cefnogi hyn, dylai'r Cyngor ystyried rhoi rhaglen "datblygu eich doniau eich hun" ar waith. Byddai hyn yn golygu cryfhau cysylltiadau â sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach lleol i greu cyflenwad o dalent wedi'i ddatblygu'n benodol i fodloni anghenion y Cyngor.

8.2.4 Yn olaf, er bod y staff eisoes yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, dylai'r Cyngor ystyried dull mwy ffurfiol a chorfforaethol o ddathlu a gwerthfawrogi staff. Gallai hyn wreiddio teimladau cadarnhaol ymhellach ar draws pob adran a menter.

## 8.3 Gwella Ymgysylltiad

8.3.1 Mae'r Cyngor yn dangos ymrwymiad clir i wella ymgysylltiad â'i ddinasyddion a'i gymunedau. Mae'r ymrwymiad hwn i'w weld yn y ffaith iddo benodi Swyddog Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned ac adfywio'r Panel Dinasyddion, drwy recriwtio aelodau newydd a defnyddio grwpiau ffocws dinasyddion. Mae'r bwriad i

ddefnyddio grwpiau ffocws dinasyddion yn gam cadarnhaol tuag at ennill gwell dealltwriaeth o safbwyntiau'r gymuned. Ymhellach, mae gan y sefydliad swyddogaeth gyfathrebu gorfforaethol ar waith ac mae'n dangos tystiolaeth o ymgysylltu ar draws amrywiol adrannau.

8.3.2 Fodd bynnag, mae angen sylw ar sawl maes i sicrhau dull cyson ac effeithiol o ymgysylltu. Er bod pocedi o arferion da, nid yw ymatebolrwydd i fudd-ddeiliaid allweddol, gan gynnwys Aelodau, cyrff craffu, Cynghorau Tref a Chymuned a'r cyhoedd, yn gyson ym mhob rhan o'r sefydliad, ac adroddwyd ei fod yn aml yn araf ac yn rhwystredig i'r unigolion dan sylw. Dylai'r Cyngor ganolbwyntio ar wella ymatebolrwydd i Aelodau a'r cyhoedd fel blaenoriaeth tymor byr.

8.3.3 Dylai'r Cyngor ystyried "dull Cyngor cyfan" mwy cyfannol o hyrwyddo ei waith a sir ehangach Pen-y-bont ar Ogwr. Byddai hyn yn helpu creu neges unedig a sicrhau bod pob adran yn gyson yn eu hymdrechion i gyfathrebu. Er bod cyfathrebu corfforaethol ar waith, mae angen i hyn fod yn fwy blaengar a rhagweithiol, yn arbennig yn ystod cyfnod o newid. Mae'n hanfodol bod y negeseuon hyn yn cyrraedd pob aelod staff, gan fod cyfathrebu mewnol yn elfen allweddol o sefydliad llwyddiannus ac ymatebol.

8.3.4 Yn ogystal, mae angen gwella arferion ymgynghori ac ymgysylltu presennol. Mae hyn yn cynnwys defnyddio mwy ar Aelodau lleol, grwpiau cymunedol ac unrhyw seilwaith cymunedol neu ymgysylltu presennol neu sefydledig arall i hyrwyddo mentrau ymgysylltu.

8.3.5 Un gydran hanfodol i ymgysylltu'n effeithiol yw "cau'r ddolen adborth" yn brydlon, ac mae angen cryfhau hyn i sicrhau bod Aelodau, dinasyddion a budd-ddeiliaid ehangach yn cael gwybod am ganlyniadau ymgyrchoedd ymgysylltu, a sut y cawsant eu defnyddio i lywio'r penderfyniadau a wneir.

**Gofynion perfformiad strategol a ystyriwyd gan y Panel**

## 8.4 Y graddau y mae'r Cyngor yn gweithredu ei swyddogaethau'n effeithiol

8.4.1 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr yn dangos fframwaith cadarn yn y defnydd effeithiol o'i adnoddau, a gwelir hyn drwy berfformiad da ar draws ei wasanaethau ac adroddiadau o berfformiad cyson gan yr Aelodau a'r Swyddogion. Yn sail i'r llwyddiant hwn mae ymroddiad ac ymrwymiad ei staff a'i Aelodau Etholedig, sy'n rhannu gwir awch am newid cadarnhaol.

8.4.2 Er y gwelir enghreifftiau canmoladwy o gydweithio ar draws y Cyngor, nid yw'r arfer hwn yn amlwg eto ar draws yr Awdurdod cyfan, sy'n awgrymu bod hwn yn faes i'w ddatblygu yn y dyfodol. Mae hunanasesiad y Cyngor hefyd yn nodi meysydd allweddol i'w gwella. Yn benodol, mae angen cryfhau adnoddau corfforaethol a strategol.

8.4.3 Mae'r Panel yn nodi o nifer o wahanol gyfarfodydd bod biwrocratiaeth a gweithdrefnau diangen ar hyn o bryd yn llethu awdurdod ac yn oedi penderfyniadau, sy'n rhwystro'r defnydd effeithiol o adnoddau, gan gynnwys amser staff. Er enghraifft, clywodd y Panel bod 'rhaid cael achos busnes ar gyfer pob gwariant', bod yna 'sawl fersiwn o adroddiadau pwyllgorau wrth iddynt fynd drwy wahanol haenau'r Cyngor' a bod hyn yn cymryd cryn dipyn o amser ac yn arwain at rwystredigaeth. Bydd mynd i'r afael ag oedi gweithdrefnol systematig a allai fod yn ddiangen yn hanfodol er mwyn datgloi potensial llawn gweithlu'r Cyngor.

## 8.5 Y graddau y mae'r Cyngor yn defnyddio ei adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol

8.5.1 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr yn dangos stiwardiaeth ariannol gref, a nodweddir gan reolaeth ariannol effeithiol a monitro cadarn. Ategir hyn ymhellach gan gyfraniad helaeth amrediad eang o Aelodau yn y broses bennu cyllideb, sy'n hybu dull mwy cydweithredol o gynllunio ariannol. Mae'r Cyngor hefyd yn elwa ar berthnasoedd da gyda'i bartneriaid a'i fudd-ddeiliaid, sydd wedi mynegi awydd cryf i gymryd rhan fwy strategol mewn gweithgareddau yn y dyfodol.

8.5.2 Wrth edrych tua'r dyfodol, mae yna gyfleoedd allweddol i wella. Mae'n hanfodol sicrhau bod y gyllideb a'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn cydweddu'n agosach â'r weledigaeth newydd a'r rhaglen newid, gan ddarparu trywydd ariannol clir ar gyfer cyfeiriad strategol y Cyngor. Dylai'r Cyngor cyfan hefyd annog mwy o awch am arloesi y tu hwnt i ddulliau traddodiadol, er mwyn canfod ffyrdd newydd ac arloesol o weithio.

8.5.3 Un maes arwyddocaol i'w ddatblygu yw meithrin diwylliant "Tîm Pen-y-bont ar Ogwr" unedig. Mae hyn yn golygu hybu mwy o gydweithio ymysg gwasanaethau a phartneriaid er mwyn osgoi gweithio ar wahân ac annog amgylchedd mwy cydweithredol. I gefnogi hyn, mae angen dull Cyngor cyfan o gyfathrebu, gan symud y tu hwnt i roi'r cyfrifoldeb yn gyfan gwbl ar y Tîm Cyfathrebu, er mwyn sicrhau bod pawb yn rhannu neges gyson a chydlynol.

## 8.6 Y graddau y mae trefniadau Llywodraethu effeithiol ar waith gan y Cyngor

8.6.1 Ar y cyfan, mae'r Cyngor yn dangos trefniadau a systemau llywodraethu cryf, gyda fframwaith rheoli perfformiad cadarn eisoes ar waith. Mae ymgysylltiad y sefydliad ag Undebau Llafur yn effeithiol ac yn cefnogi perthnasoedd cadarnhaol sy'n cyfrannu at amgylchedd cydweithredol. Ymhellach, mae'r rhan fwyaf o'r Aelodau'n parchu'r trefniadau craffu presennol, gan dynnu sylw at eu gwerth ar gyfer goruchwylio gwaith y Cyngor.

8.6.2 Er bod yna gryfderau amlwg, daeth y Panel ar draws sawl maes allweddol i'w gwella er mwyn hybu effeithiolrwydd cyffredinol:

8.6.3 **Arweinyddiaeth a Diwylliant:** Mae angen parhaus i ddatblygu tîm arweinyddiaeth mwy cydlynol a meithrin diwylliant sy'n hybu undod a chyd-bwrpas.

8.6.4 **Rheoli Perfformiad:** Er bod fframwaith da ar waith, mae angen iddo gael ei wreiddio'n ddyfnach ar draws y Cyngor i sicrhau ymdeimlad cyson o berchenogaeth ac atebolrwydd am nodau perfformiad.

8.6.5 **Ymatebolrwydd i fudd-ddeiliaid:** Mae ymatebolrwydd y Cyngor i Aelodau, pwyllgorau Craffu, budd-ddeiliaid a dinasyddion yn anghyson. Dylid gwneud ymdrech i sicrhau bod y cyfathrebu a'r gweithredu'n unffurf ac yn ddibynadwy ym mhob gwasanaeth.

8.6.6 **Prosesau Craffu:** Dylai papurau craffu fod yn fwy cryno. Clywodd y Panel am rai papurau oedd dros 600 tudalen o hyd a chyfarfodydd Pwyllgorau Craffu hirfaith. Yn ogystal, mae angen mwy o dystiolaeth i ddangos effaith canlyniadau'r broses graffu.

## 9. Cyfleoedd i Wella - Argymhellion

9.1 Rydym wedi ystyried y tri maes perfformiad gofynnol yn ofalus, yn ogystal â'r tri maes ychwanegol a nodwyd gan y Cyngor i'w hystyried yn lleol fel rhan o'r broses asesu. Mae'r adroddiad yn cynnwys nifer o arsylwadau a sylwadau am berfformiad y Cyngor ym mhob un o'r meysydd hyn. Dylid eu hystyried ynghyd â'r argymhellion a nodir isod.

9.2 Ar y cyfan, mae'r Panel wedi dod i'r casgliad bod Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr yn Gyngor da sydd wedi cyrraedd croesffordd. Heb newidiadau effeithiol, bydd darpariaeth gwasanaethau'n cael ei effeithio, ond gellir osgoi hyn. Er mwyn i'r Cyngor gyrraedd y lefel nesaf o ran ei berfformiad, rydym yn argymell y dylai roi'r argymhellion canlynol ar waith:

| | |
|---|---|
| **1.** | Mae'r Cyngor wedi penodi Prif Weithredwr i arwain ar a chyflawni newid. Dylai'r Cyngor yn awr ei gefnogi i ddatblygu gweledigaeth ysbrydoledig, sef Strategaeth Drawsnewid, a fydd yn sail i strategaethau corfforaethol a'r newid diwylliannol sydd ei angen i sicrhau cynaliadwyedd y gwasanaethau a gwell cydweithio ac arloesi ar draws y Cyngor – mae hyn yn cynnwys y staff, y cymunedau a'r partneriaid. |
| **2.** | Rhoi camau datblygu arweinyddiaeth ar waith ar gyfer uwch aelodau staff ac Aelodau i gefnogi'r newid hwn. |
| **3.** | Dylai'r Cyngor cyfan gynyddu ei awch am arloesi drwy ganolbwyntio ar y dyfodol a chyflawni canlyniadau, gan gefnogi staff ac Aelodau i wneud hynny. Dylai hyn olygu lleihau biwrocratiaeth ddiangen er mwyn rhyddhau adnoddau a grymuso rheolwyr. |

| | |
|---|---|
| **4.** | Cynnal adolygiad cyflym o'r adnoddau corfforaethol a strategol er mwyn sicrhau bod darpariaeth y gwasanaethau'n gynaliadwy ac i gefnogi'r rhaglen newid gyffredinol newydd. Yn ogystal, dylai'r Cyngor ystyried dod â galluogwyr corfforaethol allweddol ynghyd i ddatgloi potensial y sefydliad, e.e. Adnoddau Dynol, Perfformiad a Chyfathrebu. |
| **5.** | Adolygu ac adfywio ei agwedd at gymwyseddau digidol a data er mwyn cefnogi'r Cynllun Trawsnewid newydd, gan gynnwys:<br>• Cyllid<br>• Systemau<br>• Sgiliau<br>• Diwylliant |
| **6.** | Ystyried dull Awdurdod cyfan o hyrwyddo gwaith y Cyngor a Sir Pen-y-bont ar Ogwr, a hynny gyda balchder. |
| **7.** | Ystyried datblygu ar ei berthynas dda gyda phartneriaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat, cymunedol a gwirfoddol er mwyn cyflawni gweledigaeth a blaenoriaethau Pen-y-bont ar Ogwr. |
| **8.** | Fel blaenoriaeth gyntaf, dylai'r Cyngor wella ei ymatebolrwydd i Aelodau, budd-ddeiliaid a dinasyddion fel rhan o'r gwaith o feithrin diwylliant o barch tuag at y naill a'r llall. |

## 10. Cefnogaeth i Wella

Os hoffech chi drafod unrhyw gefnogaeth arall i wella, cysylltwch â Jo Hendy, Pennaeth Gwelliant CLlLC.

## 11. Cydnabyddiaeth

11.1 Dymuna'r Panel a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ddiolch i'r Cyngor am ei ymgysylltiad drwy gydol yr Asesiad Perfformiad Panel, a hoffem ddiolch yn arbennig i'r Arweinydd, y Cynghorydd John Spanswick a'r Prif Weithredwr, Jake Morgan, am eu cefnogaeth a'u didwylledd. Hoffem estyn ein gwerthfawrogiad a diolch hefyd i Swyddogion canlynol yn y Cyngor am eu cefnogaeth amhrisiadwy wrth gydlynu ceisiadau am ddogfennau, ymateb i ymholiadau, trefnu cyfarfodydd a gweithdai a darparu cefnogaeth ar y safle:

Alex Rawlin – Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus
Kate Pask – Rheolwr Perfformiad Corfforaethol
Michael Spanswick – Swyddog Cefnogi Gwybodaeth a Systemau
Emma Griffiths – Uwch Swyddog Cefnogi'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol
Michelle Lachetta – Swyddog Cefnogi'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol

**Cynhyrchwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru - Medi 2025**